# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Hysbysiadau cosbau penodedig*

## 13 Swm cosb benodedig

(1) Caiff awdurdod deddfu –

(a) pennu swm y gosb benodedig sy'n daladwy yn unol â hysbysiad o dan adran 12;

(b) pennu symiau gwahanol mewn perthynas ag is-ddeddfau gwahanol.

(2) Os na phennir unrhyw swm felly, swm y gosb benodedig yw £75.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r pwerau o dan is-adran (1).

(4) Caiff Rheoliadau o dan is-adran (3), yn benodol –

(a) ei gwneud yn ofynnol bod swm a bennir o dan is-adran (1)(a) yn dod o fewn ystod a ragnodir yn y rheoliadau;

(b) cyfyngu ar y rhychwant y caiff awdurdod wneud darpariaeth o dan is-adran (1)(b) a chyfyngu ar yr amgylchiadau pan all wneud hynny.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn roi swm arall yn lle'r swm a bennir am y tro yn is-adran (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 13(1)(2)(5) mewn grym ar 31.3.2015 gan O.S. 2015/1025, **ergl. 2(l)**

**I3** A. 13(3)(4) mewn grym ar 15.8.2014 gan O.S. 2014/2121, **ergl. 2(c)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Adran 13.